# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**3.00 y.h., DYDD MAWRTH, 6ED MAI, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt


**Jasmine Jones**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

**01286 679667**


(Dosbarthwyd 25/04/25)

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**

## Aelodau a phleidlais

### Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Craig ab Iago | Cyngor Gwynedd |
| Christopher Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Cater | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Alan James | Cyngor Sir Ddinbych |
| Hugh Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Nicola Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

### Aelod Eryri

| | |
|---|---|
| Edgar Wyn Owen | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

### Prif Swyddogion

| | |
|---|---|
| Andrew Farrow | Cyngor Sir y Fflint |
| David Fitzsimon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| James Harland | Cyngor Sir Conwy |
| Dewi Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Emlyn Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gareth Jones | Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforaethol |
| Iwan Evans | Swyddog Monitro |
| Claire Incledon | Dirprwy Swyddog Monitro |
| Dewi Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Sian Pugh | Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025/26.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

**3. CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL** 4 - 7

Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol (Atodiad 1).

**4. BLAEN GYNLLUN GWAITH YR IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL** 8 - 11

Ystyried y Blaen Gynllun Gwaith ar gyfer yr is-bwyllgor cynllunio strategol.

**5. Y DULL AR GYFER CYNHYRCHU'R CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (SDP) I OGLEDD CYMRU** 12 - 16

Rhoi cyflwyniad i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ar y cynnydd o baratoi Cytundeb Cyflawni (DA) ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol (SDP) Gogledd Cymru, yn ogystal â thynnu sylw at y rhaglen eang ar gyfer datblygu'r SDP, a rhai o'r materion allweddol y mae angen iddo eu hystyried.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

6 Mai, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol (***Atodiad 1***).

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y CBC ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – rhain yw'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig sefydlu'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol a'i aelodaeth, gan gynnwys hawliau pleidleisio, i gyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a chynhyrchu Cytundeb Cyflawni a Chynllun Datblygu Strategol ar gyfer y CBC. Er mai'r Is-bwyllgor sy'n cyflawni'r swyddogaeth o ddatblygu a pharatoi'r Cynllun, cedwir y pŵer i fabwysiadu neu adolygu gan y CBC yn unol â Rheoliad 15, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 (fel y'u diwygiwyd).

4.2. Mae'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn cynnwys 6 Aelod â phleidlais, sef deiliaid portffolio cynllunio pob un o'r Cynghorau Cyfansoddol, a Chadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri.

4.3. Mae'r swyddogaethau fel y'u nodir yn y Cylch Gorchwyl wedi'u dirprwyo o'r CBC i'r Is-bwyllgor. Mae'r swyddogaethau yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau fel y'u nodir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021. Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, bydd angen i'r Is-bwyllgor weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a rhan-ddeiliaid eraill i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu Cynllun sy'n diwallu'r uchelgais strategol ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.4. Mae natur strategol swyddogaeth yr Is-bwyllgor yn darparu ar gyfer datblygu polisi ar sail ranbarthol gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill. Rhan allweddol o'r gwaith cyflawni yw bod yr Is-bwyllgor yn rhoi cyngor strategol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Er mwyn monitro'r cynnydd hwn, bydd yr Is-bwyllgor yn darparu adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol i'r CBC i gynnwys diweddariadau rheolaidd ar reoli adnoddau a datblygiad y Cynllun, gan ystyried ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dyletswyddau statudol eraill.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.5. Tynnir sylw'r Aelodau at wall teipio ar y 7fed paragraff ar y dudalen gyntaf - disodlwch CDLl gyda CDS. Hefyd ar yr ail dudalen, 4ydd paragraff, disodlwch Rheoliad 27 gyda Rheoliad 40 - adroddiad monitro blynyddol.

4.6. Mae'r Is-grŵp yn cael ei gefnogi gan Grŵp Swyddogion Cynllunio (GSC) sydd wedi'i arwain gan swyddogion. Bydd y Grŵp Ymgynghorol hwn yn cael ei arwain gan swyddog o ba bynnag Gyngor sy'n cael ei gynrychioli drwy'r Cadeirydd etholedig. Bydd y swyddog arweiniol hwn yn cysylltu â'r Cadeirydd i roi gwybod iddynt am raglenni gwaith a chyflawni prosiectau, gyda chefnogaeth swyddogion o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y Grŵp Ymgynghorol yn cyfarfod yn rheolaidd i gydlynu cynllunio, datblygu a chyflawni'r rhaglenni a'r prosiectau perthnasol, ac i reoli adroddiadau i'r Is-bwyllgor. Ni all yr Is-bwyllgor ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau gwneud penderfyniadau i unrhyw is-grŵp o'r fath, ond gall, os yw'n dymuno, sefydlu is-grwpiau eraill neu grŵp gorchwyl a gorffen i gefnogi ei waith.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

**i. Swyddog Monitro:**

"Mae'r adroddiad wedi'i baratoi gan y Dirprwy Swyddog Monitro. Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

"Mae mabwysiadu Cylch Gorchwyl priodol yn gam allweddol yn natblygiad yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisiwyd. Gallaf gadarnhau nad yw mabwysiadu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol ychwanegol."

**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL**

Swyddogaethau'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

Bydd yr Is-bwyllgor yn goruchwylio'r swyddogaethau penodol a ganlyn yn y gorchymyn a gyflwynir, yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 cyn cynghori a cheisio cymeradwyaeth y CBC (sylwer hefyd y cyfyngiadau ar gyflawni swyddogaeth o dan Adran 6):

Ystyried a datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn sydd ei hangen ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol a gefnogir gan weithgorau'r CDS ac mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Cynllunio Lleol rhanbarthol.

Goruchwylio'r dasg o adnabod cyrff ymgynghori i gymryd rhan yn y broses CDS - 'cyffredinol' a 'penodol' (Rheoliadau 5 a 6).

Paratoi Cytundeb Cyflawni drafft (Amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau) ar gyfer paratoi'r CDS a'r AC/AAC – gan gynnwys gofynion ymgysylltu, cynnwys, hysbysu a chyhoeddi (Rheoliadau 7 i 12).

Paratoi'r CD (Ffurf, Cynnwys y CDS a'r Map Cynigion) yn unol â (Rheoliadau 13 i 14).

Ystyried materion ychwanegol y mae angen rhoi gwybod i'r CBC amdanynt, sef Adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000 a materion eraill (Rheoliad 15).

Ymgymryd â galwad am leoliadau a safleoedd strategol posib a pharatoi "cofrestr safleoedd a lleoliadau strategol posib" at ddibenion hysbysu argaeledd tir ledled y rhanbarth (Rheoliad 16 (1)(b)-(d)).

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu cynigion Cyn-adneuo y CDS (dogfennau paratoi, cyfranogiad a chynigion) – at ddiben ystyried ystod o opsiynau a strategaethau amgen (Rheoliadau 16 i 17).

Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu Arfarniad Cynaliadwyedd y CDS (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn unol ag (a39 (2) Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau AAS 5(2) a 5(4) yn y drefn honno).

Paratoi a chynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo angenrheidiol (Rheoliad 18).

Paratoi'r adroddiad sylwadau ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo ar gyfer y CBC (Rheoliad 19).

Goruchwylio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adnau – Dogfennau i'w paratoi, gofynion hysbysu a chyhoeddi, ymgynghoriad cyhoeddus statudol (isafswm o 6 wythnos) ac ystyried sylwadau (Rheoliadau 20 i 22).

Paratoi cyflwyno'r CDS i'w archwilio – Dogfennau i'w paratoi/eu cyflwyno, gofynion cyhoeddi a hysbysu (Rheoliad 23).

Paratoi ar gyfer a rheoli'r Archwiliad Annibynnol o'r CDS gan gynnwys gofynion hysbysu a chyhoeddi (Rheoliad 24).

Ystyried ac ymateb i Adroddiad yr Arolygwr - gan gynnwys gofynion hysbysu a

chyhoeddi (Rheoliad 25)

Lle bo angen, bydd yr is-bwyllgor yn ymateb i faterion sy'n ymwneud â 'materion sy'n atal mabwysiadu' (Rheoliad 26), 'cyfarwyddyd i addasu CDS' (Rheoliad 27) a 'galw i mewn' (Rheoliadau 28 – 32)

Paratoi i Fabwysiadu – gan gynnwys gweithdrefnau mabwysiadu, hysbysu a gofynion cyhoeddi (Rheoliad 35)

Goruchwylio cynhyrchu'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) - gan gynnwys gofynion cynnwys, cyhoeddi a hysbysu (Rheoliad 40).

Goruchwylio'r gwaith o gynnal Adolygiad CDS a chynhyrchu Adroddiad Adolygu CDS (dim hwyrach na 6 blynedd ar ôl mabwysiadu) (Rheoliad 39)

**Rheolaeth Rhaglenni a Phrosiectau**

i gydlynu'r gwaith o gynllunio, datblygu a chyflawni Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol o fewn y Cylch Gorchwyl hwn;

monitro ac adolygu cynnydd ac effaith y Rhaglen(ni)/Prosiect(au) perthnasol, a chyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd a gwerth am arian adnoddau gan gynnwys staff, a gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn pan mae'n ystyried bod hynny'n briodol.

Monitro ac adolygu lefel a defnydd yr adnoddau sydd eu hangen gan gynnwys staff, a gwneud argymhellion i'r CBC mewn perthynas â'r materion hyn pan mae'n ystyried bod hynny'n briodol.

**Rheoli Perfformiad**

Ymgymerir â'r isod:

Cydlynu'r broses adrodd am berfformiad i'r CBC o leiaf yn Chwarterol yn unol â Chytundeb Cyflawni'r CDS neu fel y gweithredir gan y CBC.

Cydlynu a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) statudol i'r CBC ar ôl mabwysiadu'r CDS

Cyflwyno Adroddiad Adolygu CDS i'r CBC lle bo angen o dan reoliadau statudol neu'n gynnar os daw'r AMB i gasgliad gwahanol.

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

6 Mai, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Blaen Gynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried y Blaen Gynllun Gwaith ar gyfer yr is-bwyllgor cynllunio strategol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cytuno ar y Blaen Gynllun Gwaith.

2.2. Gall y Cadeirydd ddiwygio'r Cynllun er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau mewn amserlenni gwaith, yn amodol ar ddod â'r Cynllun i gyfarfod dilynol yr is-bwyllgor i'w gytuno.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Blaen Gynllun Gwaith yn nodi calendr o gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2025, ac mae'n cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd y CBC a'r amserlen gyfredol a fabwysiadwyd ar gyfer cynhyrchu Cytundeb Cyflawni a'r camau cynllunio cychwynnol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'r Blaen Gynllun Gwaith yn nodi'r calendr cyfarfodydd, ac hefyd yn amlinellu'r gwaith sydd i'w wneud gan yr is-bwyllgor fel rhan o'i swyddogaethau dirprwyedig, a'r swyddogaethau i baratoi cynllun datblygu strategol a gedwir gan y CBC o dan reoliad 15 Rheoliadau Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Blaen Gynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol:<br>Mai - Rhagfyr 2025 |

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

“Mae proses ddemocrataidd yr is-bwyllgor yn cael ei hystyried yn briodol trwy raglen waith y cytunwyd arni, sydd wedi'i nodi yn y Blaen Gynllun Gwaith hwn.”

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

“Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.”

# IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL
# BLAEN RAGLEN WAITH

| **Amserlen** | | **Dyddiad Cyfarfod IBCS** | **Eitemau ar y Rhaglen** |
|---|---|---|---|
| 1 | IBCS agoriadol a Briffio Strategol anffurfiol | 6 Mai 2025 | • Ethol Cadeirydd<br>• Ethol Is-gadeirydd<br>• Cylch Gorchwyl<br>• Blaen Raglen Waith<br>• Adroddiad rhagarweiniol CDS: gan gynnwys diweddariad ar gamau i baratoi Cytundeb Cyflawni drafft (amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau) ar gyfer paratoi'r CDS a'r AC/AAC |
| 2 | IBCS i wneud argymhellion - cymeradwyo Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i LlC | 26 Mehefin 2025 | • Argymell cyflwyno Cytundeb Cyflawni i LlC |
| | | *(CBC 18 Gorffennaf)* | *Penderfyniad CBC i gyflwyno i LlC.* |
| 3 | IBCS | Hydref/ Tachwedd (i'w gadarnhau) | • Adroddiad chwarterol:<br>- Cynnydd ar y Cytundeb Cyflawni / neu fel a weithredir gan CBC<br>- Diweddariad ar y rhaglen waith a phrosiectau<br>- Proffil Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg a materion strategol i'r CDS fynd i'r afael â hwy, gan gynnwys cysylltiadau â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Twf<br>- Rheoli perfformiad<br>- Perfformiad ariannol<br>- Datblygiadau strategol |
| | | *(CBC 21 Tachwedd)* | *Y Cytundeb Cyflawni yn cael ei gyflwyno i'r CBC i'w gymeradwyo'n derfynol yn y cyfarfod ar 21 Tachwedd.* |
| | | | |
| | | **Cyffredinol:**<br>**Cyfrifoldebau'r is-bwyllgor** | **Allbynnau**<br>Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 yn cynnwys cyflawni camau penodol fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.<br>• Darparu cyngor/diweddariadau strategol i'r CBC<br>• Darparu ymatebion i LlC ar faterion cynllunio gofodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Cydlynu a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol statudol (AMB) i'r CBC ar ôl mabwysiadu'r CDS<br>**monitro ac adolygu allbynnau (gwneud argymhellion i'r CBC yn ôl yr angen)**<br>**Aelodau Cyfetholedig (â phleidlais)** – o dan adolygiad parhaus<br>**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)** |

ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

6 Mai, 2025

**TEITL:** Y dull ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) i Ogledd Cymru

**AWDUR:** Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC
Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Strategol Rhanbarthol

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyflwyniad i'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol ar y cynnydd o baratoi Cytundeb Cyflawni (DA) ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol (SDP) Gogledd Cymru, yn ogystal â thynnu sylw at y rhaglen eang ar gyfer datblygu'r SDP, a rhai o'r materion allweddol y mae angen iddo eu hystyried.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi'r sefyllfa gyda'r SDP.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Sicrhau bod yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn gwbl ymwybodol o'r dull i'w ddefnyddio gyda'r SDP a'r prif gamau sy'n gysylltiedig â'r broses o lunio cynlluniau.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Gosodwyd pwerau a dyletswyddau statudol newydd ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n ymwneud â lles economaidd rhanbarthol, cynllunio gofodol a chynllunio trafnidiaeth.

4.2. Y nod yw hyrwyddo cydweithio rhanbarthol i gyflawni canlyniadau mwy effeithiol i gymunedau drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygiadau a'r isadeiledd cysylltiedig yn cael eu cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr, sy'n cyd-fynd yn agos ag uchelgeisiau datblygu economaidd a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dull mwy strategol o ymdrin â defnydd tir a chynllunio trafnidiaeth.

4.3. O ran cynllunio gofodol, mae'r ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a Chynllun Datblygu Strategol wedi'i nodi yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Wedi hynny, crëwyd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau SDP), sy'n galluogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i baratoi SDP. Cyhoeddwyd Llawlyfr drafft SDP i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yn hydref 2022, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2025. Mae'r Llawlyfr drafft yn rhoi arweiniad ar amserlenni lefel-uchel ar gyfer cynhyrchu SDP. Mae'n fanwl ac yn rhagnodol ac yn rhagweld y byddai'n cymryd pum mlynedd i gynhyrchu SDP.

4.4. Ni ragwelir felly y bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu tan 2030 ar y cynharaf, ac yn y cyfamser mae'n rhaid cadw'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyfredol, gan sicrhau, er enghraifft, y gall buddsoddiad a datblygu cynaliadwy barhau i ddigwydd mewn ffordd a arweinir gan Gynllun, gan roi hyder i'r holl ran-ddeiliaid gan gynnwys buddsoddwyr, datblygwyr a chymunedau. Yn y pen draw, bydd paratoi SDPs yn galluogi system fwy cyson, cost-effeithiol ac effeithlon ar gyfer gwneud cynlluniau, gyda phenderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud un waith ar y lefel strategol. Bydd hyn yn caniatáu i faterion sy'n fwy na rhai lleol megis graddfa tai a swyddi, a'u dosbarthiad gofodol ar draws nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol, gael eu cynllunio mewn modd integredig a chynhwysfawr.

4.5. Er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi'r SDP, mae swyddog priodol o rwydwaith Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, sy'n ymwneud â chynllunio gofodol rhanbarthol, wedi'i recriwtio i fod yn Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol (Cyd-bwyllgor Corfforedig). Mae hyn yn sicrhau cynrychiolaeth ar gyfer buddiannau'r awdurdodau lleol a buddiannau rhanbarthol, yn gysylltiedig ag arbenigedd pwnc. Dechreuodd y swyddog ei secondiad gyda CBC y Gogledd yn y rôl hon ym mis Ionawr 2025, gan rannu ei amser yn y lle cyntaf cyn gweithio ar sail llawn amser i'r CBC o 1 Ebrill 2025.

## 5. CYNNYDD YR SDP

5.1. I ddechrau, bydd y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o baratoi cynllun rhaglen i'r SDP ynghyd a Chytundeb Cyflawni (DA), sef datganiad cyhoeddus sy'n cynnwys y Cynllun Cyfranogiad Cymunedol (CIS) sy'n nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o lunio'r cynllun ac amserlen (Rheoliad 10) ar gyfer paratoi'r SDP - Rheoliad 11 (1). Byddant yn dadansoddi gofynion yr SDP ac yn cysylltu ar draws pob grŵp rhanddeiliaid, gan gydweithio i gynhyrchu'r SDP.

5.2. Amlinellir yr amserlen ddangosol (fel y'i cymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig) ar gyfer y gwaith hwn isod:

1. Y CBC yn awdurdodi paratoi DA - Ionawr 2025
2. Paratoi DA drafft ac ymgynghori'n anffurfiol ag ymgynghoreion allweddol – Mawrth-Ebrill 2025
3. Adolygu'r DA drafft (os oes angen) – Ebrill 2025
4. Ymgynghori'n ffurfiol ar y DA – Mai-Mehefin 2025
5. Y CBC i fabwysiadu'r DA yn ffurfiol – Gorffennaf 2025
6. Cyflwyno'r DA mabwysiedig i Lywodraeth Cymru – Gorffennaf-Awst 2025
7. Cyhoeddi'r DA ar y wefan a hysbysu'r holl randdeiliaid yn ffurfiol – cyn gynted â phosib ar ôl derbyn cymeradwyaeth LlC

5.3. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft cyntaf wedi'i baratoi a'i anfon at Llywodraeth Cymru ar gyfer eu barn cychwynnol, yn unol â thasg 2 uchod. Yna, yn dilyn adborth gan Llywodraeth Cymru gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol a wnaed (tasg 3), bydd yn cael ei rannu efo ymgynghoreion allweddol cyn mynd allan ar gyfer ymgynghoriad ehangach (tasg 4). Yn ddibynnol ar dderbyn adborth amserol, mae'r camau hyn ar y trywydd cywir mewn perthynas â'r amserlen ddangosol uchod, gydag efallai llithriad bach o gwpl o wythnosau, ond mae hyblygrwydd yn yr amserlen ar gyfer hyn.

## 6. RHAGLEN EANG YR SDP

6.1. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn offeryn rheoli prosiectau hanfodol gan fod y rhaglen gyffredinol ar gyfer paratoi SDP yn debygol o gymryd o leiaf bum mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r canllawiau a nodir yn llawlyfr drafft yr SDP a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhan o'r her i'r CBC yw sicrhau y gellir cyflawni'r cynllun mewn modd amserol ac yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, ond bydd y broses yn cael ei monitro yn rheolaidd i ddeall lle y gellir defnyddio arbedion amser ac adnoddau i docio'r amserlen gyffredinol ar gyfer yr SDP.

6.2. Mae'r Rheoliadau SDP yn nodi sawl cam allweddol fel rhan o'r broses o gynhyrchu cynllun y mae'n rhaid gweithio trwyddynt mewn trefn ddilyniannol, gydag amserlenni realistig yn cael eu defnyddio ym mhob cam. Mae'r camau allweddol hyn a'u pwrpas yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

| Cyfnod Allweddol SDP | Prif Bwrpas |
|---|---|
| **Cam 1**<br>Cytundeb Cyflawni | Amlinellu sut y bydd y cynllun yn cael ei gynhyrchu, sut y gall pobl gymryd rhan yn y broses, pa adnoddau sydd eu hangen, a pha mor hir y bydd yn ei gymryd. Ymgynghori'n anffurfiol ar y DA fel rhan o'i ddatblygiad. |
| **Cam 2**<br>Cyn-adneuo – paratoi'r sylfaen dystiolaeth | Coladu sylfaen dystiolaeth gadarn ac asesu'r materion allweddol y mae angen i'r cynllun fynd i'r afael â nhw. Defnyddio'r dadansoddiad hwn i baratoi opsiynau twf a gofodol i lywio datblygiad Strategaeth a Ffafrir (PS). Dylid galw am safleoedd a lleoliadau strategol posib i'w datblygu, a chreu sgôp ar gyfer asesu cynaliadwyedd ac effaith y cynllun wrth iddo fynd rhagddo. |
| **Cam 3**<br>Strategaeth a Ffafrir | Nodi'r opsiwn twf a strategaeth ofodol a ffafrir ar gyfer lefel eang a lleoliad twf strategol yn y Rhanbarth a chyhoeddi hyn fel y Strategaeth a Ffafrir ar gyfer yr SDP. Cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd am gyfnod chwe wythnos ar y Strategaeth a Ffafrir. |
| **Cam 4**<br>Cynllun Adnau | Ar ôl ystyried adborth o'r cam PS, paratoi fersiwn lawn o'r SDP sy'n cynnwys yr holl bolisïau a chynigion strategol perthnasol a nodwyd yn y gwahanol gamau yn gynharach yn y broses. Cynnal ymgynghoriad ffurfiol gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd am gyfnod chwe wythnos ar y Strategaeth a Ffafrir. |
| **Cam 5**<br>Cyflwyniad | Paratoi ymateb ffurfiol i'r sylwadau a wnaed i'r cynllun Adneuo ac unrhyw amserlen o newidiadau a allai ddeillio o hynny. Y CBC i gymeradwyo'r ymateb hwn a chytuno i gyflwyno'r cynllun fel cynllun cadarn y gellir ei fabwysiadu, ar gyfer Archwiliad cyhoeddus. |
| **Cam 6**<br>Archwiliad | Archwiliad ffurfiol o gadernid yr SDP gan Arolygydd /Arolygwyr Cynllunio annibynnol o Benderfyniadau Amgylcheddol Cynllunio Cymru (PEDW). |
| **Cam 7**<br>Adroddiad yr Arolygydd | Derbyn ac ystyried Adroddiad yr Arolygydd ar ôl yr Archwiliad. Cyhoeddi hysbysiad o fwriad i fabwysiadu'r cynllun. |
| **Cam 8**<br>Mabwysiadu | CBC i benderfynu'n ffurfiol i fabwysiadu'r cynllun o fewn 8 wythnos ar ôl derbyn ac ystyried Adroddiad yr Arolygydd. |

6.3. Bydd hefyd yn bwysig ystyried lefel yr adnoddau sydd ar waith ac sydd eu hangen i gwrdd â'r rhaglen hon mewn modd amserol. Mae sawl opsiwn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â llunio'r Cytundeb Cyflawni sy'n cynnwys creu rolau cynllunio mewnol o fewn y CBC, defnyddio ymgynghorwyr arbenigol, a deall unrhyw allu o fewn Awdurdodau Lleol i ddarparu cefnogaeth bellach i'r SDP.

6.4. I gyflawni'r SDP yn llwyddiannus, mae'n debygol y bydd angen cyfuniad o'r opsiynau, yn dibynnu ar y cam a gyrhaeddwyd, y gyllideb sydd ar gael a ble mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol arni gyda'u hadolygiadau CDLl. Rhaid i'r DA fod â digon o allu a hyblygrwydd i fedru ymateb i gerrig milltir a allai fod yn arwyddocaol o fewn ei amserlen gynlluniedig gan gynnwys canlyniadau etholiadau'r Senedd neu etholiadau lleol, newidiadau i bolisi neu ganllawiau cenedlaethol, neu argaeledd cyllid ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau strategol. Nid yw'r rhain yn hawdd i'w rhagweld.

6.5. Yn olaf, mae llunio SDP yn darparu sawl cyfle i'r CBC:

- Greu gweledigaeth o'r math o le yr ydym am i Ranbarth Gogledd Cymru fod ymhen 25-30 mlynedd;
- Sefydlu cyd-destun gofodol ar gyfer lleoliad twf a datblygiad a fydd yn cyd-fynd â'r cyd-destun trafnidiaeth strategol sydd eisoes wedi'i ddatblygu'n dda ar gyfer y rhanbarth;
- Hwyluso cyflawni prosiectau economaidd a seilwaith trawsnewidiol sy'n gysylltiedig ag argaeledd cyllid cyhoeddus sylweddol;
- Dangos arwyddocâd y rôl y mae'r rhanbarth yn ei chwarae yn y farchnad a'r economi genedlaethol a rhyngwladol ehangach;
- Gosod cyd-destun cyson ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol neu'r CDLl cryno yn y dyfodol, lle mae lefelau a dosbarthiad y twf eisoes wedi'u pennu, mae cyd-destun polisi cynllunio strategol eisoes wedi'i gytuno, a gall cynlluniau lleol ganolbwyntio ar gyflawni.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC Gogledd Cymru gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio cymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru.

## 8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

8.1. Mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ymhellach i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

ATODIADAU:

Dim

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn cyflwyno dull clir a rhesymegol o greu'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer yr SDP. Mae'r llwybr penderfynu yn briodol ac yn adlewyrchu'r gofynion llywodraethu yn briodol."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisiwyd o safbwynt priodoldeb ariannol. Mae'r gwariant a ragwelir yn 2025/26 wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol wedi'i ystyried wrth osod y gyllideb."